# ASHTON HEWITT

# RYGBI

PIONEER OF WALES

## ETIFEDDIAETH

Ganwyd Ashton yng Nghasnewydd, a daeth ei ddylanwadau o du hwnt i Gymru - o'i etifeddiaeth Jamaicaidd a Charibïaidd.
Mae iaith, cerddoriaeth, a "pharch a pherthnasoedd" wedi siapio'r ffordd mae'n trin pobl.

Mae straeon y genhedlaeth Windrush - yr hyn a wynebwyd ganddynt a'r hyn a wnaeth nhw oresgyn - wedi rhoi safbwynt iddo a fu'n dylanwadu ar ei fywyd a'i chwaraeon.

## CYMRU YW...

Balchder Ysbryd yr eilydd
Cymuned a chydweithredu

Roedd Ashton yn ddwy-hil ac yn "hiliedig fel Dyn Du", er ei fod "yr un mor wyn ag y mae'n Ddu."

Yn y byd rygbi roedd yn aml yr unig fachgen Du yn y tîm, gan ddysgu'n gynnar pryd oedd ef yn perthyn a phryd nad oedd.

Cynrychiolodd Cymru gyda balchder, ond roedd pobl yn dweud wrtho nad oedd yn gallu bod yn Gymro.



## CYFRANIAD

Rhoddodd rygbi lwyfan i Ashton: dyn un clwb gyda'r Dreigiau a'u hail sgoriwr uchaf erioed o ran ceisiadau.

Cafodd ei gapio gyda Thîm Dan 20 Cymru a'i alw i mewn i sgwadiau'r tîm cenedlaethol, hyd yn oed pan roedd ganddo anafiadau.

Ond yr hyn oedd yn bwysicaf iddo oedd siarad yn onest, fel bod pobl ifanc yn teimlo "llai ar eu pennau eu hunain" ac yn gwybod bod rhywun yn ymladd drostyn nhw.

## CRYFDERAU A LLAWENYDD

Mae "newid" yn llawenydd - pan fydd sgyrsiau anodd yn taro'r nod a rhywun yn dweud, "Dwi'n falch i ni gael y sgwrs yma."

"Mae dy brofiadau'n real.
Paid â gadael i neb ddweud yn wahanol wrthyt.

Os nad wyt ti'n teimlo dy fod yn perthyn mewn rhyw le, yna nid yw'r lle hwnnw'n haeddu cael ti ynddo."